**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**Y Bil Lles Plant ac Ysgolion**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("SO") 29.2. Mae SO29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y caniateir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru[1] os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n ymwneud â materion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Lles Plant ac Ysgolion ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Rhagfyr 2024. Mae'r Bil ar gael yn: Bil Lles Plant ac Ysgolion

## Amcan(ion) polisi

3. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw:

   Cael gwared ar rwystrau i gyfleoedd mewn ysgolion a gwella'r system addysg i'w gwneud yn fwy cyson a mwy diogel i bob plentyn. Mae hefyd yn ceisio cryfhau rheoleiddio gofal cymdeithasol i wella ansawdd gofal i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion plant, gan gadw plant wedi'u gwreiddio yn eu teuluoedd a chymunedau lleol lle bo hynny'n bosibl.

## Crynodeb o'r Bil

4. Mae'r Bil yn cael ei noddi gan yr Adran Addysg.

5. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i:

- fandadu awdurdodau lleol i gynnig 'Penderfyniadau Grŵp Teulu'; (Cymal 1 fel y'i cyflwynwyd)
- sicrhau amddiffyn a diogelu plant drwy gryfhau rôl addysg wrth ddiogelu, rhannu gwybodaeth yn well ar draws gwasanaethau amlasiantaeth, a galluogi un dynodwr unigryw ('dynodwr cyson') i gefnogi plant a theuluoedd (Cymalau 2-4 fel y'u cyflwynwyd)
- cefnogi plant sydd mewn gofal, sy'n gadael gofal neu sy'n cael gofal gan berthynas a gofalwyr sy'n gofyn i awdurdodau lleol gyhoeddi cynnig gofal gan berthynas lleol, ymestyn rôl pennaeth ysgol rithwir i blant sy'n cael gofal gan berthynas yn ogystal â'r rhai sydd â gweithiwr cymdeithasol, cryfhau cefnogaeth i bobl sy'n gadael gofal cymwys trwy 'Aros yn Agos'; a'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth i sicrhau bod pobl sy'n gadael gofal yn cael cyfnod pontio cynlluniedig a chefnogol i fod yn oedolion. (Cymalau 5-8 fel y'u cyflwynwyd)

---

[1] Sylwer, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, rydym yn cyfeirio at y ddeddfwrfa yng Nghymru fel "Senedd Cymru" ar y defnydd cyntaf ac "y Senedd" wedi hynny oni bai bod y cyd-destun yn nodi fel arall.

- deddfu ar gyfer llety plant sy'n derbyn gofal gan gyflwyno trefniadau cydweithredu rhanbarthol i elwa ar bŵer prynu awdurdodau lleol, a darparu fframwaith statudol i awdurdodi amddifadu rhyddid i blant sydd angen hynny i'w cadw'n ddiogel, mewn llety heblaw Cartref Plant Diogel, wedi'i gynllunio gyda'r prif bwrpas o ofal a thriniaeth. (Cymalau 9-10 fel y'u cyflwynwyd)
- grymuso rheoleiddiwr, Ofsted, i fynd i'r afael ag achosion o weithredu'n groes i Ddeddf Safonau Gofal 2000, gan gynnwys yn erbyn cartrefi plant heb eu cofrestru; cyfyngu ar y defnydd o weithwyr cymdeithasol asiantaeth; a chau bwlch cyfreithiol mewn perthynas â chamdriniaeth lefel isel (camdriniaeth neu esgeulustod bwriadol) yn erbyn plant 16 a 17 oed, (Cymalau 11-12 fel y'u cyflwynwyd)
- sefydlu 'Cyfundrefn Goruchwylio Ariannol' i gynyddu tryloywder ariannol a chorfforaethol darparwyr gofal sy'n anodd eu disodli a'u perchnogion corfforaethol, yn ogystal â 'Chyfundrefn Goruchwylio Darparwyr'; (Cymal 13 fel y'i cyflwynwyd)
- galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg i weithredu cap ar elw darparwyr gofal cymdeithasol plant nad ydynt yn awdurdodau lleol yn y dyfodol, a gosod cosbau ariannol a'r weithdrefn ar gyfer gosod cosbau o'r fath. (Cymalau 14-17 fel y'u cyflwynwyd)
- rheoleiddio ar gyfer y defnydd o weithwyr asiantaeth ar gyfer gwaith cymdeithasol plant. (Cymal 18 fel y'i cyflwynwyd)
- ymestyn y ddeddfwriaeth ar amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod bwriadol fel ei bod yn gymwys i blant 16 a 17 oed mewn lleoliadau gofal a chadw penodol. (Cymal 19 fel y'i cyflwynwyd)
- deddfu mewn perthynas â chyflogi plant, trwy gyflwyno trefniadau newydd ar gyflogi plant yn Lloegr. (Cymal 20 fel y'i cyflwynwyd)
- deddfu i sicrhau bod clybiau brecwast am ddim ar gael i bob plentyn; (Cymal 21 fel y'i cyflwynwyd)
- deddfu mewn perthynas â bwyd a diod i'w ddarparu mewn Academïau (Cymal 22 fel y'i cyflwynwyd)
- cyfyngu ar nifer yr eitemau gwisg ysgol wedi'u brandio y gall ysgolion eu mynnu (Cymal 23)
- cyflwyno mecanwaith cydsyniad awdurdod lleol ar gyfer tynnu plant penodol o'r ysgol (Cymal 24 fel y'i cyflwynwyd)
- cyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i gael a chynnal cofrestrau Plant nad ydynt yn yr Ysgol a darparu cymorth i rieni sy'n addysgu gartref a darparu canllawiau i gefnogi hyn. (Cymalau 25 a 28 fel y'u cyflwynwyd)
- gwella effeithlonrwydd y broses gorchymyn mynychu'r ysgol (Cymal 26 fel y'i cyflwynwyd)
- cryfhau a gwella deddfwriaeth mewn perthynas â sefydliadau addysg annibynnol, gan gynnwys Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymalau 30-37 fel y'u cyflwynwyd)
- gwneud newidiadau technegol sy'n gysylltiedig â phryd mae angen i Ofsted adrodd ar ansawdd arolygiaethau penodol eraill ac i roi pwerau i Ofsted rannu gwybodaeth gyda nhw. (Cymal 38 fel y'i cyflwynwyd)
- cryfhau'r system ar gyfer rheoleiddio'r proffesiwn addysgu (Cymal 39 fel y'i cyflwynwyd)

- gwella cymwysterau athrawon ysgol sy'n gofyn am Statws Athro Cymwysedig (Cymal 40 fel y'i cyflwynwyd)
- gosod dyletswyddau ar ysgolion Academi mewn perthynas â'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd; darpariaeth ar gyfer gwella ymddygiad; a thâl ac amodau athrawon (Cymalau 41 i 46 fel y'u cyflwynwyd) ;
- Cyflwyno pwerau newydd mewn perthynas â lleoedd ysgol a derbyniadau, (Cymalau 47-50 fel y'u cyflwynwyd) a
- gwneud darpariaethau mewn perthynas â sefydlu ysgolion newydd (Cymalau 51 -55 fel y'u cyflwynwyd)

*Ymgysylltu â Llywodraeth y DU*

6. Mae swyddogion yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda swyddogion Llywodraeth y DU. Dechreuodd trafodaethau ar gynnwys y Bil ym mis Medi 2024, a dros yr hydref ehangodd y rhain i ystyried ymestyn darpariaethau penodol i gwmpasu Cymru. Mae swyddogion Llywodraeth y DU a swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd ers hynny i ddatblygu darpariaethau.

7. Mae'r Bil yn rhyngweithio â:

    - Deddf Addysg 1996
    - Deddf Plant 1989
    - Deddf Plant 2004
    - Deddf Safonau Gofal 2000
    - Deddf Addysg a Sgiliau 2008
    - Deddf Addysg 2002
    - Deddf Academïau 2010
    - Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
    - Deddf Diogelu Data 2008

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

8. Cyflwynwyd y Bil fel Bil i Loegr yn unig. Cyflwynwyd gwelliannau ar 10 Mawrth 2025 sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd i'r graddau y maent yn ymwneud ag addysg a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

**Rhan 1 – Gofal Cymdeithasol Plant**

9. Mae dwy ddarpariaeth yn y Bil sy'n berthnasol i ofal cymdeithasol yng Nghymru ac yn dod o fewn elfen "gwneud llywodraeth sy'n canolbwyntio ar y plentyn" y Bil, sef:

    - **Cymal 11:** ymestyn y meini prawf statudol y mae'n rhaid i awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr ddangos ei fod wedi eu bodloni wrth roi plentyn mewn llety diogel yn Lloegr i osod plentyn mewn amgylchiadau eraill sy'n golygu amddifadu rhyddid yn Lloegr.

- **Cymal 20:** ymestyn troseddau presennol camdriniaeth neu esgeulustod bwriadol gan ddarparwyr gofal neu weithwyr gofal unigol mewn lleoliadau gofal cymdeithasol i gwmpasu pobl ifanc 16/17 oed.

Cymal 11 (a gyflwynwyd fel Cymal 10)

10. Yn Lloegr, mae mwy a mwy o blant y mae angen eu hamddifadu o'u rhyddid er eu diogelwch yn cael eu rhoi mewn lleoliadau annigonol sydd heb eu cofrestru o dan Orchymyn Amddifadu Rhyddid (DOLO) a wneir trwy Awdurdodaeth Gynhenid yr Uchel Lys oherwydd diffyg lleoliadau cofrestredig addas. Mae Llywodraeth y DU yn cynnig hwyluso mathau newydd o ddarpariaeth ("Cartrefi Plant Diogel Cymunedol") a fydd yn darparu llety a gofal therapiwtig, addas i blant ag anghenion cymhleth sy'n gysylltiedig â thrawma ac sydd angen eu hamddifadu o'u rhyddid.

11. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys cynnig deddfwriaethol i ddarparu sail statudol ar gyfer amddifadu rhyddid a awdurdodir gan y llys pan fo angen hynny i gadw plentyn yn ddiogel yn y math newydd hwn o ddarpariaeth. Y bwriad cyffredinol yw gwella canlyniadau i blant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, gyda mesurau diogelu a hawliau priodol, gan leihau dibyniaeth ar y defnydd o Orchmynion Amddifadu Rhyddid a chartrefi heb eu cofrestru ac anaddas.

12. Mae Cymal 11 yn gwneud diwygiadau i adran 25 o Ddeddf Plant 1989. Mae adran 25 yn gwneud darpariaeth ar gyfer yr amgylchiadau pan fydd plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yn cael ei amddifadu o'i ryddid ac yn nodi pa amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn gosod y plentyn hwnnw mewn lleoliad llety diogel.

13. O dan y diwygiadau a gynigir o dan Gymal 11, caniateir amddifadu plant o'u rhyddid a'u lletya mewn math newydd o lety ("llety perthnasol") fel dewis arall i'r lleoliad "llety diogel" presennol sydd eisoes wedi ei nodi yn adran 25.

14. Mae'r is-adran 1(a) sy'n bodoli eisoes yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn i awdurdod lleol amddifadu plentyn o'i ryddid a'i roi mewn llety diogel. Mae adran 25(1) yn nodi na ellir rhoi plentyn mewn llety diogel oni bai ei bod yn ymddangos bod ganddo hanes o ddianc a'i fod yn debygol o ddianc o lety o unrhyw ddisgrifiad arall; ac os yw'n dianc, ei fod yn debygol o ddioddef niwed sylweddol; neu os caiff ei gadw mewn llety o unrhyw ddisgrifiad arall, ei fod yn debygol o anafu ei hun neu bersonau eraill.

15. Cynigir o dan y Bil y bydd yr un prawf hwn yn cael ei ymestyn mewn is-adran 1A newydd i gynnwys lleoliad mewn "llety perthnasol" hefyd.

16. Darperir diffiniad o'r hyn sy'n gyfystyr â "llety perthnasol" mewn is-adran 1B newydd fel a ganlyn:

*it is provided for the purposes of the care and treatment of children, and it is capable of being used (in whole or in part), in connection with the provision of such care and treatment, for the purpose of depriving children of their liberty.*

17. Fel y'i drafftiwyd yn y Bil fel y'i cyflwynwyd, bydd y prawf o dan is-adran 1A y mae'n rhaid ei fodloni er mwyn rhoi plentyn mewn llety perthnasol yn gymwys i awdurdodau lleol Lloegr yn unig.

18. Ar hyn o bryd, os yw plentyn yn cael ei leoli mewn llety diogel yng Nghymru, ac mae'n mynd i gael ei amddifadu o'i ryddid, yna mae'r prawf o ran lleoliad yn dod o dan adran 119 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Fel arall, gellir gwneud cais i'r Uchel Lys o dan ei awdurdodaeth gynhenid i amddifadu plentyn o'i ryddid a'i osod yn unrhyw le heblaw am uned llety diogel.

19. Os yw awdurdod lleol yng Nghymru yn dymuno gosod plentyn yn Lloegr mewn lleoliad sy'n darparu gofal a thriniaeth ac yn dymuno amddifadu'r plentyn hwnnw o'i ryddid, yna rhaid iddo naill ai wneud cais o dan adran 25 i'w roi mewn llety diogel yn Lloegr, neu fel yr uchod caniateir gwneud cais i'r Uchel Lys o dan ei awdurdodaeth gynhenid.

20. Yn absenoldeb darpariaeth sy'n ymdrin ag awdurdod lleol yng Nghymru sy'n dymuno gosod plentyn mewn llety perthnasol yn Lloegr, yna byddai unrhyw leoliad sy'n cynnwys amddifadu o ryddid, nad yw mewn llety diogel yn Lloegr, gan awdurdod lleol yng Nghymru, yn golygu bod angen defnyddio awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys. Mae hyn yn broblem, gan fod plant yn aml yn cael eu rhoi mewn lleoliadau heb eu cofrestru o ansawdd gwael ac oherwydd nad yw amddiffyniadau adran 25 – gan gynnwys hawl i gymorth cyfreithiol nad yw'n seiliedig ar brawf teilyngdod neu brawf modd, a phwyntiau adolygu statudol rheolaidd – ar gael i blant sy'n cael eu hamddifadu o ryddid o dan awdurdodaeth gynhenid.

21. Bydd newid i'r gyfraith i gynnwys Awdurdodau Lleol Cymru yn y prawf i'w gymhwyso wrth roi plant mewn "llety perthnasol" yn Lloegr yn sicrhau bod plant yn elwa o'r mesurau diogelu a'r amddiffyniadau a roddir gan gynllun statudol.

<u>Cymal 20 (a gyflwynwyd fel Cymal 19)</u>

22. Mae Cymal 20 o'r Bil yn gwneud diwygiadau i adrannau 20, 21 a 25 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a’r Llysoedd 2015 ("Deddf 2015”). Mae'r diwygiadau yn ymwneud â throseddau presennol yn Neddf 2015 sy'n gwahardd cam-drin neu esgeuluso'n fwriadol oedolion gan weithwyr gofal a darparwyr gofal mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Daeth y troseddau, yn eu ffurf bresennol, i rym yng Nghymru a Lloegr ar 13 Ebrill 2015.

23. Ar hyn o bryd mae'r troseddau yn cwmpasu cam-drin ac esgeuluso oedolion (y rhai 18 oed a hŷn) gan weithwyr unigol neu ddarparwyr gofal a thra byddant yn derbyn gofal iechyd neu ofal cymdeithasol.

24. Mae camdriniaeth neu esgeulustod bwriadol o blant (y rhai dan 18 oed) sy'n derbyn gofal iechyd hefyd yn cael ei gipio gan y troseddau presennol; fodd bynnag, nid yw camdriniaeth neu esgeulustod bwriadol o blant sy'n derbyn gofal cymdeithasol yn cael ei gipio ar hyn o bryd.

25. Mae adran 1 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosedd o greulondeb ac esgeulustod tuag at blant. Mae'r drosedd yn cipio esgeulustod ac mae'n ddigon eang i gwmpasu ystod o gamdriniaeth a wneir i blant a gellir dibynnu arni fel cyhuddiad troseddol amgen yn erbyn y rhai sy'n cam-drin neu'n esgeuluso plant sy'n derbyn gofal cymdeithasol.

26. Fodd bynnag, dim ond i blant dan 16 oed y mae adran 1 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 yn gymwys ac felly nid yw'r un amddiffyniadau'n cael eu rhoi i bobl ifanc 16 ac 17 oed. Mae'r diwygiadau a gynigir gan Gymal 20 o'r Bil yn ceisio cau'r bwlch hwn a sicrhau amddiffyniad teg i bobl ifanc 16 ac 17 oed. Byddai hyn yn ganlyniad cadarnhaol i'r grŵp oedran hwn a byddem am weld hyn yn cael ei ymestyn i Gymru.

27. Bydd y cymal yn gymwys i weithwyr gofal yn y lleoliadau canlynol yng Nghymru:

- gwasanaeth cartref gofal neu wasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd;
- man y mae llety yn cael ei ddarparu i blant anabl;
- llety cadw ieuenctid yng Nghymru.

**Rhan 2 – Plant nad ydynt yn yr ysgol, Cymalau 25-30 (a gyflwynwyd fel Cymalau 24-29) ac Atodlen 1**

28. Mae gwelliannau i Gymalau 25-29 (Cymalau 24-29 fel y'u cyflwynwyd) yn ymestyn y darpariaethau plant nad ydynt yn yr ysgol, a gyflwynwyd fel rhai Lloegr yn unig, i Gymru.

29. Mae diwygiadau i Gymal 25 (Cymal 24 fel y'i cyflwynwyd) yn gwneud darpariaethau i fewnosod adran 434A newydd yn Neddf Addysg 1996, ar ôl adran 434, mewn perthynas â gofyn am gydsyniad awdurdod lleol i dynnu plant penodol o'r ysgol. Mae'r darpariaethau yn ei gwneud yn ofynnol i riant geisio cydsyniad awdurdod lleol i dderbyn addysg heblaw yn yr ysgol (er enghraifft, i addysgu'r plentyn gartref) os ydyw'n bodloni meini prawf "plentyn perthnasol", hynny yw bod eu plentyn: o oedran ysgol gorfodol; yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol; a naill ai;

    - wedi ei gofrestru mewn ysgol arbennig a gynhelir gan yr awdurdod lleol, neu

- wedi ei gofrestru mewn ysgol annibynnol sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â darparu addysg amser llawn i bersonau y cynhelir cynllun datblygu unigol ar eu cyfer; neu
- bod y plentyn yn destun ymchwiliad o dan Adran 47 o Ddeddf Plant 1989; neu
- pan fo'r plentyn ar gynllun amddiffyn plant.

30. Yng Nghymru mae mecanwaith cydsyniad awdurdod lleol eisoes ar waith ar gyfer plant sy'n mynychu ysgolion arbennig felly os yw rhiant eisiau dadgofrestru o'r ysgol, mae'r cais yn cael ei gyfeirio at yr awdurdod lleol i'w adolygu a'i gytuno. Mae'r darpariaethau o dan Gymal 25 yn golygu y bydd carfan ehangach o blant yn elwa ar fecanwaith cydsyniad.

31. Mae darpariaethau o dan Gymal 25 hefyd yn gosod dyletswyddau ar berchnogion ysgol i hysbysu awdurdod lleol os ydynt yn ymwybodol bod rhiant plentyn perthnasol sydd wedi ei gofrestru yn eu hysgol yn bwriadu tynnu'r plentyn o'r ysgol i dderbyn addysg heblaw yn yr ysgol. Mae'r cymal yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â chamau y mae'n rhaid i ysgol eu cymryd i sicrhau bod plentyn perthnasol yn parhau i fod wedi ei gofrestru yn yr ysgol nes y ceir cadarnhad gan yr awdurdod lleol o ganlyniad y cais i dynnu'r plentyn, er mwyn sicrhau nad yw'r plentyn yn cael ei dynnu o'r gofrestr cyn y rhoddir cydsyniad. Mae darpariaethau hefyd yn caniatáu i berchennog ysgol y mae'r plentyn wedi ei gofrestru ynddi wneud cais i'r awdurdod lleol perthnasol ar ran y rhiant am gydsyniad i dynnu'r plentyn o'r ysgol i'w addysgu gartref, pan fo'r rhiant wedi rhoi cydsyniad.

32. Mae Cymal 25 yn manylu ar ddarpariaethau mewn perthynas â'r awdurdod lleol yn rhoi neu'n gwrthod cydsyniad i gais rhiant i addysgu plentyn perthnasol gartref. Mae'r darpariaethau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud penderfyniad amserol ynghylch a ddylid caniatáu'r cais a nodi manylion pryd y mae'n rhaid gwrthod cydsyniad i gais a manylion o ran i bwy y dylid cyfathrebu penderfyniadau. Wrth ystyried y cais, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried yr amgylchedd cartref ac amgylcheddau dysgu eraill wrth benderfynu p'un ai a ddylid ei gwneud yn ofynnol i blant fynychu'r ysgol ai peidio.

33. Mae darpariaethau hefyd yn nodi'r prosesau y gall rhieni eu cymryd pe baent yn cael eu tramgwyddo gan benderfyniad yr awdurdod lleol mewn perthynas â'r cais i dynnu eu plentyn o'r ysgol.

34. I lawer o blant a allai wynebu risg o niwed, mae lleoliadau addysg yn ffactor amddiffynnol. Mae plant nad ydynt yn yr ysgol yn rheolaidd ac felly nad ydynt yng ngŵydd athrawon neu ymarferwyr eraill, yr ystyrir eu bod yn wynebu risg o niwed sylweddol gwirioneddol neu debygol, yn grŵp blaenoriaeth. Y bwriad yw i awdurdodau lleol nodi'n rhagweithiol blant nad ydynt yn yr ysgol yn eu hardal leol a pha rai o'r plant hynny sy'n hysbys i ofal cymdeithasol plant.

35. Mae Cymal 26 yn diwygio Deddf Addysg 1996 drwy fewnosod adrannau newydd ar ôl Adran 436A sy'n gwneud darpariaethau i greu cofrestrau gorfodol o blant nad ydynt yn yr ysgol ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, a dyletswydd ar awdurdodau lleol i gefnogi'r plant ar eu cofrestrau (pe bai rhiant yn gofyn am hyn).

36. Mae'r darpariaethau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol greu a chynnal cofrestr o blant cymwys sy'n byw yn ardal yr awdurdod lleol ac sydd o oedran ysgol gorfodol:
    - pan nad yw'r plentyn wedi ei gofrestru mewn ysgol;
    - pan fo'r plentyn wedi ei gofrestru fel disgybl mewn ysgol berthnasol ond bod yr ysgol wedi cytuno i'r plentyn fod yn absennol am rywfaint neu'r cyfan o'r amser a derbyn rhywfaint neu'r cyfan o'i addysg heblaw mewn ysgol berthnasol; neu
    - pan fo'r plentyn wedi ei gofrestru mewn ysgol berthnasol yn unig ond ei fod yn mynychu'n rhan-amser.

    Mae ysgol berthnasol yn cynnwys ysgolion a gynhelir (gan gynnwys ysgolion arbennig ac UCDau), sefydliadau addysg bellach sy'n darparu addysg i blant 14 oed a hŷn, ac ysgolion annibynnol.

37. Mae cymal 26 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch pryd mae plentyn sydd wedi ei gofrestru mewn ysgol ac sy'n derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS), yn gymwys i fod ar y gofrestr plant nad ydynt yn yr ysgol (CNIS) ai peidio.

38. Mae cymal 26 yn nodi manylion cynnwys a chynhaliaeth y gofrestr CNIS sy'n ei gwneud yn ofynnol bod enw'r plentyn, ei ddyddiad geni, ei gyfeiriad cartref, ynghyd ag enw a chyfeiriad cartref pob un o rieni'r plentyn, ac enw pob rhiant sy'n darparu addysg i'r plentyn yn cael ei gadw ynghyd â manylion pellach am faint o amser y mae'r plentyn yn derbyn addysg. Mae'r darpariaethau hefyd yn nodi manylion ystod o wybodaeth ychwanegol y dylid ei chadw ar y gofrestr, mewn perthynas â'r plentyn, pan fo’r awdurdod lleol yn dal gwybodaeth o'r fath. Mae hyn yn cynnwys manylion fel anghenion penodol y dysgwr, megis Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) neu fanylion am bryderon diogelu hysbys.

39. O dan Gymal 26, rhoddir dyletswyddau ar rieni plant sy'n cael eu haddysgu gartref ac sydd wedi'u dadgofrestru o ysgol, i ddarparu gwybodaeth i'w hawdurdod lleol i'w gefnogi i gynnal ei gofrestr CNIS.

40. Mae cymal 26 hefyd yn gwneud darpariaethau ar gyfer plentyn sy’n derbyn addysg gan rywun heblaw rhiant. Pan fo darparwyr y tu allan i addysg yn darparu rhan o addysg plentyn, mae Cymal 26 yn gosod dyletswydd ar y darparwyr hynny i rannu gwybodaeth berthnasol gyda'r awdurdod lleol at ddibenion cynnal y gofrestr CNIS. Pan nad yw'r darparwr y tu allan i addysg yn cydymffurfio â'r dyletswyddau, mae'r ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer dyroddi cosbau ariannol. Mae Atodlen 31A yn darparu'r manylion ynglŷn â'r cosbau ariannol hynny ac yn rhoi

pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i ragnodi manylion y dirwyon hynny.

41. Mae'r ddarpariaeth yn nodi pryd a gyda phwy y gellir rhannu manylion y gofrestr CNIS er mwyn diogelu a hyrwyddo lles y plentyn ac i gefnogi cynnal cofrestrau CNIS awdurdodau lleol eraill, pan ei bod yn hysbys bod plentyn yn symud, er enghraifft. Mae'r darpariaethau yn atal cyhoeddi unrhyw ran o'r data a gynhwysir yn y gofrestr CNIS.

42. Mae Cymal 27 (Cymal 26 fel y'i cyflwynwyd) yn cyflwyno newidiadau i'r broses Gorchymyn Mynychu'r Ysgol (SAO) i'w gwneud yn fwy effeithlon, gan leihau'r amser y caiff plant ei dreulio mewn addysg anaddas (caniateir defnyddio'r broses hon hefyd pan nad yw rhieni yn cydymffurfio â'u dyletswydd newydd i ddarparu gwybodaeth ar gyfer cofrestrau Plant nad ydynt yn yr Ysgol) drwy:

- Cyflwyno amserlenni statudol ar gyfer dyroddi a phrosesu SAO;
- Ei gwneud hi'n drosedd i rieni dynnu plentyn sy'n destun SAO o'r ysgol heb ddilyn y weithdrefn briodol. Gall rhieni sydd wedi eu dyfarnu'n euog o dorri SAO gael eu herlyn eto os ydynt yn parhau i'w dorri heb i awdurdodau lleol orfod dechrau'r broses eto.
- Sicrhau bod y gosb uchaf am dorri SAO yn gydnaws â’r gosb uchaf am y drosedd o fethu, yn fwriadol, â sicrhau bod plentyn yn mynychu'r ysgol.

43. Mae darpariaethau yn creu pŵer o ran os yw plentyn yn destun ymholiad adran 47 o Ddeddf Plant 1989 neu ar gynllun amddiffyn plant a'i fod eisoes yn cael ei addysgu gartref, bydd gan yr awdurdod lleol y pŵer i adolygu a yw er budd gorau'r plentyn i fod yn yr ysgol ac yna gall fynnu bod y plentyn wedi ei gofrestru mewn ysgol.

44. Mae Cymal 27 yn darparu pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i ragnodi manylion gorchymyn mynychu'r ysgol.

45. Mae Cymal 28 (Cymal 27 fel y'i cyflwynwyd) yn gwneud darpariaeth i fewnosod adran newydd yn Neddf Addysg 1996 ar ôl adran 436P sy'n ymwneud â phlant nad ydynt yn yr ysgol a gorchmynion mynychu yng Nghymru: diogelu data. Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau bod trin a phrosesu gwybodaeth mewn perthynas â'r dyletswyddau newydd a gyflwynir o dan Gymalau 25-27 (ceisiadau am gydsyniad i dynnu plentyn perthnasol; cofrestr CNIS; trosedd o fethu â chydymffurfio â gorchymyn mynychu'r ysgol; neu ddarparu gwybodaeth gan ddarparwyr y tu allan i addysg) yn cael ei wneud yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

46. Mae Cymal 29 (Cymal 28 fel y'i cyflwynwyd) yn gwneud darpariaeth i fewnosod adran newydd ""Guidance on children not in school and school attendance orders" yn Neddf Addysg 1996 ar ôl adran 436Q, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru wrth arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â'r gofrestr CNIS a dirymu gorchmynion mynychu'r ysgol.

47. Mae'r darpariaethau yn cynnwys nifer o bwerau gwneud is-ddeddfwriaeth. Mae gwelliannau yn ei gwneud hi'n glir bod Gweinidogion Cymru yn gwneud y rheoliadau mewn perthynas â Chymru a bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y rheoliadau mewn perthynas â Lloegr.

Mae'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth wneud y rheoliadau wedi eu nodi isod:

| Adran ddrafft newydd | Cadarnhaol | Negyddol – |
|---|---|---|
| | | |
| 436(B)(6) | Set gyntaf | Ail set a setiau dilynol |
| 436C(2) | Cadarnhaol bob amser | |
| 436C(4) | Set gyntaf | Ail set a setiau dilynol |
| 436E(1)(a) | Cadarnhaol bob amser | |
| 436E(7) | Cadarnhaol bob amser | |
| 436E(9) | Set gyntaf | Ail set a setiau dilynol |
| 436F(1) | Set gyntaf | Ail set a setiau dilynol |
| 436F(2) | Cadarnhaol bob amser | |
| 436I(5) | | Negyddol bob amser |
| Para 5 o Atodlen 31 | Set gyntaf | Ail set a setiau dilynol |

48. Mae angen cydsyniad ar gyfer y ddarpariaeth hon neu'r darpariaethau hyn oherwydd eu bod yn cynnwys darpariaeth at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y maent yn ymwneud ag addysg a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Byddai'r darpariaethau Gofal Cymdeithasol Plant ((Cymalau 11 a 20) (Cymalau 10 a 19 fel y'u cyflwynwyd)) a'r darpariaethau Plant nad ydynt yn yr ysgol ((Cymalau 25-29) (Cymalau 24-28 fel y'u cyflwynwyd) yn y Bil Lles Plant ac Ysgolion yn gwneud "darpariaeth berthnasol" o ran materion datganoledig.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

49. Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ddydd Llun 10 Mawrth 2025, gan nodi bod gwelliannau'r llywodraeth i gymalau 11, 20 a 25-29 yn cynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a'i bod o'r farn bod angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Lles Plant ac Ysgolion**

50. Mae cymryd darpariaeth yn y Bil hwn gan Senedd y DU yn galluogi cyflawni darpariaeth gadarnhaol i Gymru. Er y gellid cyflwyno darpariaeth mewn Bil gan y Senedd, byddai gwneud hynny'n effeithio ar gyflawni blaenoriaethau deddfwriaethol eraill ac ni ellid ei chyflawni o fewn yr un amserlenni â Bil y DU. Mae bod yn rhan o'r Bil hwn yn sicrhau bod plant Cymru yn ddarostyngedig i'r un amddiffyniadau â phlant Lloegr.

Cymal 11

51. Yn absenoldeb darpariaeth sy'n ymdrin ag awdurdod lleol yng Nghymru sy'n dymuno gosod plentyn mewn llety perthnasol yn Lloegr yn Mil y DU, yna byddai unrhyw leoliad sy'n cynnwys amddifadu o ryddid, nad yw mewn llety diogel yn Lloegr, gan awdurdod lleol yng Nghymru, yn golygu bod angen defnyddio awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys. Byddai'n debygol o greu ansicrwydd ynglŷn â'r prawf cywir i'r llysoedd ei gymhwyso pan fyddai awdurdodau lleol Cymru yn gwneud cais am awdurdodiad i osod plentyn yn y math newydd o leoliad diogel yn Lloegr ac yn creu ansicrwydd i awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau yng Nghymru. Yn y pen draw, gall rwystro'r cyfleoedd i blant ag anghenion penodol iawn o Gymru gael yr un mynediad i'r "llety perthnasol" â phlant o awdurdod lleol yn Lloegr.

52. Gyda dim ond 1 Cartref Plant Diogel (SCH) yng Nghymru a 13 SCH yn Lloegr, nid oes digon o leoliadau o fewn SCH yng Nghymru i ateb y galw. Bydd newid i'r gyfraith i gynnwys awdurdodau lleol Cymru yn y prawf i'w gymhwyso wrth roi plant mewn "llety perthnasol" yn Lloegr yn sicrhau bod plant yn elwa o'r mesurau diogelu a'r amddiffyniadau a roddir gan gynllun statudol.

Cymal 20

Bydd y diwygiadau arfaethedig yng nghymal 20 yn galluogi pobl ifanc 16 ac 17 oed i gael eu hamddiffyn yn yr un modd â phlant o dan 16 oed. Mae hwn yn ganlyniad cadarnhaol i'r grŵp oedran hwn. Byddai aros i ddeddfu yng Nghymru ar ddarpariaethau tebyg os ydynt eisoes ar waith yn Lloegr yn arwain at lai o amddiffyniadau i blant yng Nghymru mewn cymhariaeth. Pe bai Llywodraeth Cymru yn bwriadu deddfu yn y maes hwn, byddai'r oedi yn arwain at gyfnod pan nad yw plant yng Nghymru yn destun yr un amddiffyniadau â Lloegr.

53. Mae gan bob rhiant gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau bod eu plentyn yn derbyn addysg amser llawn addas, effeithlon. Mae'r rhan fwyaf o rieni yn dewis cyflawni'r cyfrifoldeb hwn trwy eu hanfon i'r ysgol, tra bod eraill yn dewis ei gyflawni trwy ymgymryd ag addysg heblaw yn yr ysgol (er enghraifft, addysgu eu plant gartref).

54. Mae nifer y plant a addysgir gartref yng Nghymru yn cynyddu. Mae'r rhan fwyaf o rieni sy'n addysgu gartref yn gwneud hynny er budd gorau eu plant, ac mae llawer o blant a addysgir gartref yn derbyn addysg addas sy'n eu cefnogi i ffynnu. Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol wedi mynegi pryderon yn ystod ymgysylltu rheolaidd â Llywodraeth Cymru nad yw pob plentyn sy'n cael ei addysgu gartref yn cael ei addysgu'n briodol a bod rhai yn wynebu risg o niwed neu'n dioddef niwed.

55. Yn gynyddol, mae rhieni plant ag anghenion cymhleth yn dewis addysgu gartref ac efallai nad ydynt wedi eu paratoi'n dda neu nad oes ganddynt y cyfarpar i ddarparu addysg addas. Er bod mecanwaith cydsyniad awdurdod lleol ar waith yng Nghymru ar gyfer plant sy'n mynychu ysgolion arbennig, ar hyn o bryd nid oes dyletswydd ar rieni i hysbysu awdurdodau lleol pan fyddant yn addysgu gartref. Mae awdurdodau lleol yn annhebygol o fod yn ymwybodol o'r holl blant nad ydynt yn yr ysgol yn eu hardaloedd, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn derbyn addysg addas neu'r rhai sy'n wynebu risg o niwed. Felly, gall rhai plant fod yn treulio cyfnodau hir o amser yn derbyn addysg anaddas neu, mewn rhai achosion, dim addysg o gwbl, heb ymyrraeth; ac mae yna hefyd blant a allai fod mewn amgylcheddau cartref anniogel ac o dan radar ymarferwyr sydd yno i'w hamddiffyn.

56. Bydd darpariaethau a wneir o dan Gymalau 25-29 o'r Bil yn cefnogi awdurdodau lleol i wneud hyn.

57. Er bod plant sydd eisoes ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (CPR) eisoes yn cael eu gweld gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, bydd gofynion a wneir drwy'r darpariaethau plant nad ydynt yn yr ysgol yn creu mecanwaith ychwanegol i ddiogelu'r plant hyn, gan leihau'r risg o golli cyfleoedd i'w diogelu.

58. Er nad oes tystiolaeth bod cael addysg gartref yn risg diogelu ynddo'i hun, mae plant sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref (EHE) yn llai gweladwy i awdurdodau ac felly mae llai o gyfleoedd i weithwyr proffesiynol/asiantaethau adrodd problemau.

59. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi bwrw ymlaen â'r gwaith ar gronfa ddata Plant sy'n Colli Addysg (CME) yn lle hynny. Mae'r gronfa ddata CME yn fecanwaith i helpu awdurdodau lleol i nodi plant sy'n colli addysg, neu a allai fod yn colli addysg, trwy ddefnyddio cofnodion iechyd anghlinigol a chymharu'r rhain â gwybodaeth a gedwir gan awdurdodau lleol am blant sy'n byw yn yr awdurdod lleol i helpu i nodi unrhyw blant nad ydynt yn hysbys iddynt.

60. Er bod rheoliadau peilot cronfa ddata CME yn cryfhau polisi CME yng Nghymru, byddai'r darpariaethau plant nad ydynt yn yr ysgol a gynigir yn y Bil hwn yn gwella'r polisi (o safbwynt diogelu) gyda'r gofrestr CNIS, gorchymyn mynychu'r ysgol (SAO), asesu addasrwydd cryfach a chymalau amddiffyn plant yn gymwys ochr yn ochr â threfniadau cronfa ddata CME.

61. Yn ogystal â chyflwyno'r rheoliadau i dreialu'r gronfa ddata CME, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol ar EHE yn 2023, i gefnogi awdurdodau lleol i ymgymryd â'u dyletswydd o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002, sef gwneud trefniadau i ymgymryd â'u swyddogaethau addysgol gyda'r bwriad o ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Er gwaethaf cyflwyno'r canllawiau statudol, mae awdurdodau lleol yn

adrodd anawsterau parhaus wrth nodi plant a addysgir gartref a gallu ymgysylltu â'r teulu, ac maent yn parhau i alw am fesurau cryfach. Bydd y darpariaethau plant nad ydynt yn yr ysgol yn darparu ar gyfer y mesurau cryfach hyn.

62. Ar ben hynny, byddai'r darpariaethau yn y Bil, fel y'i cyflwynwyd, wedi arwain at awdurdodau lleol yn Lloegr yn cael lefelau uwch o gyswllt â phlant sy'n cael EHE nag awdurdodau lleol yng Nghymru. Pe na bai'r darpariaethau yn cael eu hymestyn i Gymru, fel y cynigir gan y gwelliannau a gyflwynwyd, byddai dyletswyddau ar deuluoedd yng Nghymru yn cael eu hystyried yn llai llym nag yn Lloegr. Byddai cael y Bil yn gwneud darpariaethau perthnasol i Gymru mewn perthynas â phlant nad ydynt yn yr ysgol yn creu amddiffyniad cyfartal i blant Cymru a Lloegr.

**Goblygiadau ariannol**

63. Mae'n annhebygol y bydd goblygiadau ariannol i Gymru mewn perthynas â chymalau gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU yn diweddaru ei Asesiad Effaith Rheoleiddiol a allai dynnu sylw at oblygiadau ariannol y mae wedi'u nodi, ac mae swyddogion yn aros am ragor o wybodaeth am hyn.

64. Mae'n debygol y bydd goblygiadau ariannol i Gymru, yn benodol i Awdurdodau Lleol a darparwyr 'y tu allan i addysg' mewn perthynas â chostau gweinyddu a chostau gofynion TG o bosibl. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y DU yn ystyried ac yn adolygu'r goblygiadau ariannol o fewn yr Asesiad Effaith Rheoleiddio. Rydym yn gofyn am ragor o fanylion am hyn, y gost debygol i Gymru a'r hyn y bydd hyn yn ei olygu yn ymarferol.

65. Mae mesurau o fewn y Bil mewn perthynas â chosbau ariannol ar gyfer darparwyr y tu allan i addysg yn darparu i Weinidogion Cymru bennu lefelau'r cosbau hynny drwy bwerau gwneud rheoliadau. Bydd ystyriaeth lawn o'r goblygiadau ariannol yn cael ei chynnal adeg datblygu'r rheoliadau hynny yn y dyfodol a bydd yn destun ymgynghoriad.

**Casgliad**

66. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU gan y bydd y rhain yn gwella polisi presennol ac arfaethedig Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag addysg ddewisol yn y cartref a phlant sy'n colli addysg; yn ogystal â darparu mynediad at lety a mesurau diogelu ar gyfer plant mewn lleoliadau gofal cymdeithasol ac iechyd. Bydd y darpariaethau yn mynd i'r afael â bylchau deddfwriaethol pwysig ar draws y ddwy genedl a byddant yn cefnogi awdurdodau lleol a phartneriaid i gyflawni eu dyletswyddau diogelu presennol. Byddai cael y Bil yn gwneud darpariaethau perthnasol i Gymru mewn perthynas â phlant nad ydynt yn yr ysgol yn creu amddiffyniad cyfartal i blant Cymru a Lloegr. Felly, rwy'n argymell bod y Senedd yn cydsynio i'r Bil hwn sy'n gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig.

**Lynne Neagle AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**24 Mawrth 2025**